# Sut i gasglu sampl wrin canol-llif (MSU)

## Ar gyfer plant hŷn, pobl ifanc ac oedolion sydd â system wrinol fenywaidd

### Pwyntiau cyffredinol

**Cofiwch i olchi eich dwylo** â **sebon a dŵr** cyn ac ar ôl casglu sampl wrin (pi).


**Peidiwch ag agor y cynhwysydd di-haint** nes eich bod yn barod i gasglu'r sampl.

**Osgowch gyffwrdd y tu mewn i'r cynhwysydd,** ac osgowch adael i'ch organau cenhedlu gyffwrdd ag unrhyw ran ohono.

**Labelwch y cynhwysydd cyn casglu'r sampl** os yw eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi gofyn i chi wneud hynny.

### I gasglu sampl wrin canol-llif

**1**




Tynnwch gaead y cynhwysydd a'i osod ar arwyneb glân gyda'r tu mewn yn wynebu i fyny.

**2**




Defnyddiwch un llaw i wahanu'r labia (y plygiadau croen o amgylch agoriad y fagina) a'u dal ar agor.

**3**




Dechreuwch basio wrin yn y tŷ bach (peidiwch â chasglu'r darn cyntaf o wrin). Heb atal y llif, symudwch y cynhwysydd i'r wrin a chasglwch ychydig ohono.

**4**



Llenwch y cynhwysydd â chymaint o wrin â phosibl heb iddo orlifo, neu hyd at y llinell a farciwyd os oes un. Gorffennwch basio wrin yn y tŷ bach.

**5**



Rhowch y caead yn ôl ar y cynhwysydd a'i dynhau'n ddiogel. Rinsiwch a sychwch du allan y cynhwysydd os yw'n wlyb.

**6**



Ewch â'r sampl wrin at eich darparwr gofal iechyd cyn gynted â phosibl, gydag unrhyw ffurflenni neu labeli y gofynnwyd i chi eu llenwi. Dilynwch yr awgrymiadau ar dudalen 2.

## Gwybodaeth gryno

**Beth yw sampl wrin canol-llif?** Sampl wrin canol-llif yw wrin a gesglir hanner ffordd drwy basio wrin.

**Pam mae angen i mi gasglu wrin canol-llif?**
Gall wrin o ddechrau'r llif wrin godi germau o'r croen, a all effeithio ar ganlyniadau'r prawf. Mae casglu'r sampl canol-llif yn helpu i osgoi hyn ac yn rhoi canlyniadau mwy cywir.

**Oes angen i mi olchi fy ardal organau cenhedlu cyn casglu sampl?**
Nid oes angen i chi ddefnyddio cynhyrchion glanhau arbennig, heblaw bod eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn dweud fel arall wrthych. Sicrhewch bod yr ardal yn lân ac yn sych.

**A allaf ddefnyddio jar neu gynhwysydd o gartref?**
Dylech ddefnyddio'r cynhwysydd y mae eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i roi i chi i gasglu'r sampl.

**Oes ots pryd y byddaf yn casglu'r sampl?**
Ceisiwch gasglu'r sampl mor agos â phosibl i'ch apwyntiad er mwyn cael sampl o'r ansawdd gorau. Ceisiwch gymryd y sampl cyn i chi gymryd gwrthfiotigau os gallwch chi.

**Oes sefyllfaoedd lle gallai'r broses hon newid?**
Weithiau gall eich darparwr gofal iechyd argymell dull gwahanol ar gyfer casglu sampl wrin. Os felly, dilynwch y canllawiau maen nhw'n eu rhoi i chi.

## Awgrymiadau ar gyfer dychwelyd sampl wrin

**Dychwelwch y sampl yn gyflym**
Ewch ag ef at eich darparwr gofal iechyd cyn gynted â phosibl – yn ddelfrydol o fewn dwy awr.

**Gwiriwch amseroedd gollwng** Gofynnwch pryd yw'r amser gollwng hwyraf, fel y gall eich sampl gyrraedd y labordy yr un diwrnod.

**Cadwch e'n oer**
Os na allwch chi ddanfon y sampl yn gyflym, rhowch ef mewn bag plastig a'i storio yn yr oergell nes y gallwch chi wneud hynny.

**Defnyddio cynwysyddion di-haint arbennig**
Mae gan rai cynwysyddion bowdr cadwol a llinell lenwi wedi'i farcio. Ceisiwch lenwi hyd at y llinell, ond os na allwch chi, casglwch gymaint o wrin ag y gallwch.

**Sganiwch yma**
am ragor o wybodaeth

© Hawlfraint y Goron 2026. Fersiwn 1. Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2026. Dyddiad diwygio: Gorffennaf 2029. Datblygwyd y ddogfen hon gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol,
cleifion a chyrff meddygol proffesiynol. Gweithredir TARGET gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.